



Dau aderyn gwyn, un (y dylluan wen) wedi ei gymryd gyda camera cyffredin iawn gan Steve Roddick yn ddiweddar, a'r llall (y forwennol bigddu) a camera proffesiynol y meistr ffotograffydd Alun Williams. Y foeswers - peidiwch byth a bod ofn tynnu llun pa gamera bynnag sydd gennych....

## Pladuro

...Byddai rhyw hoe fach wedyn [ar ôl y cynhaeaf gwair] cyn y cynhaeaf yd. Yr haidd fyddai gyntaf i aeddfedu tua diwedd Awst os ceid ha' da. byddai'n ofynnol iddo aeddfedu yn wyn neu byddai'r col yn wydn a'r peiriant dyrnu yn methu cael haidd glan. Pladuriau fel rheol fyddai'r drefn i dorri, a gafwrwr yn dilyn, dau os byddai'r pladurwr yn deall ei grefft, a'i bladur wedi ei gosod allan ac yn finiwr penigamp. Rhaid oedd bod yn daclus wrth afra, gofalu fod y gwellt yn yr ysgub yn gorwedd yr un ffordd a dim o'r brig yn gymysg, yna dewis rhwymyn, tynnu chwech neu saith gwelltyn ger eu brig a rhwymo'r ysgub oddeutu ei chanol. Byddai cwlwm arbennig i'w wneud, dau dro tynn yn y rhwymyn ac yna gwthio'r gweddill o dan y rhwymyn ond gofalu peidio gwthio'r brig rhag i'r grawn dyfu pe digwyddai fod tywydd gwlyb. Y gwaith nesaf fyddai codi'r ysgubau yn swp o bedair a rhwymo'r brigau drachefn gyda'r un math o rwymyn er mwyn iddynt aros ar eu traed pe deuai storm o wynt. Os ceid tywydd ffafriol, awel a haul ymhen pythefnos, byddai'r yd yn barod i'w gario, taflu'r sypiau i lawr a gofalu fod cwt yr ysgubau tua'r gwynt iddynt sychu yn iawn. Dyma'r yd eto i ddiogelwch ac i aros dyrnu.

**Pigion o "Arferion a Chwaraeon ardal y Parc erstalwm" gan "Hen Ddwylo" (OT Jones efallai). Diolch i Carys Dafydd.**

## Pladuro - o'r Tywyddiadur

**Aberdaron** 24 Mehefin 1889: Talais 2/- i Thomas Penybryn am osod dwy bladur a dau strick\*.

**Llansilin**, Sir Dinbych 22 Gorffennaf 1932: Trin gwair a cario llwyth o cae hade dwad yn wlaw llifo bladur tori asgell yn cae bwlich.

**Rhiw**, Llŷn 17 Awst 1933: Glaw bore. Diwrnod rigio y ddwy bladur a'i llifo

**Padog** 11 Gorffennaf 1935: Mynd a'r bladur newydd i Sbyty Ifan i'w lifo ar y maen wrth y Felin. Grytio y stric\* a hogi a thorri gwair gyda'r nos.

**Padog** 28 Awst 1935: Dechrau torri yd hefo pladuriau. Torri dwy acer a'i arfa\*\* a chodi ysgubau fesul pedair yn rhesi.

**Padog** 29 Medi 1948: Torri yd yn gornel cae canol yn y bore hefo'r bladur, garfa, a chodi geifr, torri ceirch weiglodd ffynnon.

**Padog** 12 Awst 1950: Torri yd cae lloeau hefo'r pladur, gafra\*\*, a codi geifr. Gosod ffrwyn ar y bladur.

**Bwichtocyn** 5 Gorffennaf 1933: Dechrau torri ddarn arall yn cae fuwch. Torri coes y bladur. Poeth.

\* Ewch yma i weld hanes y stric: <http://www.lleennatur.com/oneadmin/photogallery/gallery.php?photo=slefren-f%F4r->

lloerol&category\_id=31&parent\_id=31&photo\_id=840&frompage=searchphoto&start=0&searchby=bytitle&seachcat=40&searchkey=stric

\*\* arfa = gafra, sef hel yr yd yn afrod neu styciau.

## Pryfed tân ym Môn



A pair of mating male & female glow-worms found at Parc Dulas, Anglesey tonight

9 Gorffennaf 2013]. SH 45481 87006

Llun a hanesyn: Steve Roddick

Am fwy o wybodaeth am gofnodion pryfed tân ymn Mhrydain (gyda nifer yng Nghymru gan gynnwys Llandudno, ewch i

<http://ukglowworms.blogspot.co.uk/>

Y FAGÏEN (*Glow worm*.)

Gained dy liw! Fagïen dlos - yn loew em

Ar hardd lawnt yr haf-nos;

I ddenu'th gar hoffi aros

Yn leuer wnei drwy'r glir nos.

Goginan. J. D. Evans (*Aberystwyth Observer* 26 Gorffennaf 1906)

BWYD Y GOLEUEN (*Glow worm*).

Fel ysbryf, y mae yr oleuen yn byw yn gyfangwbl ar falwod. Y mae pob goleuen fyw yn cynrychioli tair malwoden farw.

Tarian Y Gweithiwr 23 Awst 1888

*THE GLOW-WORM.*

*Softly beaming and content,*

*A glow-worm lay upon the ground,*

*Unconscious of the light she lent*

*To less distinguished worms around.*

*From out a mossy bed, close by,*

*A toad crept forth the worm to view,*

*And, glancing with an evil eye,*

*Its venom at the bright thing threw.*

*"Oh say what harm I've done to thee"*

*The worm exclaimed, "I can't divine".*

*"Enough," the toad croaked angrily,*

*"Enough, that you presume to shine."*

*Pembrokeshire Herald and General Advertiser* 22 Rhagfyr 1876

A chofnod o'r Tywyddiadur:

A female Glow worm (*Lampyris noctiluca*) was found at Llanelltyd in early August (J. B.) 1974

*Nature in Wales* Mawrth 1975 (gyda chaniatad CBNGC)

Chi bobl ardal Llanelltyd, ydyn nhw yno o hyd? A welsoch hi eraill?

## Llên Natur ar flaen y gad

Ym mis Ebrill cynhaliwyd gweithdy yng Ngregynog ar y cyd rhwng Consotiwm Newid Hinsawdd Cymru a Chymdeithas Edward Llwyd (Prosiect Llên Natur). Dyma grynodedb o'r trafodion (gan gynnwys cyfraniad Prosiect Llên Natur)

[http://llennatur.com/files/u1/ical\\_climate\\_workshop\\_report\\_final\\_\\_cymraeg\\_.pdf](http://llennatur.com/files/u1/ical_climate_workshop_report_final__cymraeg_.pdf)

## Pawb a'i chwyn



Mae i bob gardd – a phob blwyddyn hefyd – ei chwyn arbennig. Pa chwyn sydd yn tyfu yn eich gardd lysiau chi? Rhwyddlyn y maes (uchod) sy'n plagio gardd Gwelfor (Waunfawr) eleni. Gellir ei adnabod wrth y petal gwyn isaf ar y blodyn.

## Daeargryn yn y Waunfawr?

WAUNFAWR 18 Ebrill 1888: WAENFAWR. Teimlwyd ysgydwad yma ac yn Bettws Garmon am haner awr wedi saith nos Fercher [18 Ebrill]. Yr oedd yr adsain yn debyg i daniad magnel, ac oddeutu haner eiliad y parhaodd. Mewn rhai tai yr oedd y llestri yn ratlo, a rhedai amryw o'r preswylwyr allan mewn dychryn. Yr oedd dynion a weithient yn y meusydd yn teimlo y tir yn symud o dan eu traed, ac wrth reswm brawychwyd hwy yn fawr.

*Papurau Newydd Cymru Arlein LIGC* h. *Cambrian News*

Os mai daeargryn oedd hwn roedd pawb arall yng ngogledd Cymru ar y 18 Ebrill 1888 yn mynd o gwmpas eu busnes fel arfer. Ni chefais yr un son amdano chwaith yn y llu o safleoedd daeargrynfeydd trwy Google. Unrhyw gynnig rhywun?

## Pa anifail?



Ateb y pos fis diwethaf oedd diliau mêl neu crwybrau gwenyn. Ni bu enillydd y tro hwn. Rôl-ofyr felly - £20 i'r cyntaf i gynnig yr ateb cywir i'r cwestiwn "I ba anifail y mae'r patrwm uchod yn perthyn?"

Llun: Aled Jones

Ymddiheurwn am fethu a chydabod llun Aled o wyfyn y corn carw yn rhifyn diwethaf y Bwletin

## Eiliad o saib ynghanol cyflafan

Mae dyddiadur y nyrs Edith Appleton a wasanaethodd ar y ffrynt gorllewinol yn y Rhyfel Gyntaf wedi dod i sylw Tywyddiadur Liên Natur yn ddiweddar. Mae'r dyddiadur yn gignoeth ac yn ddirdynnol dros ben, ond mi roedd Edith (neu Edie fel y'i gelwid) yn hoff o natur ac yn sensitif i'r tywydd. Yng nghanol cyflafan y Somme collodd hi rioed ei chariad at fywyd ac at natur. Dyma gofnod Edie ar adeg o hamdden ar lan y môr Etretat, yng ngogledd Ffrainc:

*If I had the time I would collect seaweed in a book - there is one sort I have never seen before. Under water it is a bright blue, but out of water it is just like that valuable old pottery - a sort of blackish brown with a blue glisten on it. We walked across the freshwater stream and found it strong and cold, and the old washerwomen thought we were quite mad, but that we are used to by now, the old villains! We saw how it is our clothes come back in holes - each of them had a bottle of chloride of lime and at the least stain they pour it lavishly on all the same - coarse or fine cloth*

[cofnod 14 Gorffennaf 1916].



Mae Edith yn disgrifio'r gwymon *Cystoseira tamariscifolia* (rainbow wrack, tamarisk weed, magic seaweed). Nid oes enw cyffredin Cymraeg arno. [Beth am 'gwymon glaswyrdd'?] Mae o yn liw llachar glas/gwyrdd/melyn o dan y dŵr, ond yn colli'r lliwiau unwaith mae o allan o'r dŵr, ac yn troi yn ddu. Dyma link I ddelwedd ohono:

<http://www.flickr.com/photos/domgreves/7216622890/>

Gwymon anghyffredin ym Mhrydain.

Sion Roberts

Rydym yn gobeithio cael llun o'r gwymon hwn erbyn y rhifyn nesaf.

## Llymriaid Dinas Dinlle



Llymriaid yn heigio yn Ninas Dinlle 17 Gorffennaf 2013 mewn dŵr bas a llanw isel

Llun: Gill Brown

7 Mai 2005: Codi 4 o'r gloch y bore i fynd i ddal llymriaid ar draeth Ty'n Tywyn. Roedd yn draddodiad yn Llŷn i drigolion y pentrefi gwledig fynd i lawr i'r traethau tywod i ddal llymriaid. Dim ond ar y distyll tra mae'n gwawrio yn ystod mis Mai y mae dal llymriaid. Maent wedi eu claddu yn y tywod ac maent yn symud yn gyflym iawn. Buom ni'll dau yn palu am 2 awr i ddal digon ar gyfer un pryd i 5 ohonom.

Gwefan rhiw.com

Beth am drïo mis Gorffennaf nesa hogia!

## Digwyddiad rhyfeddol

Roeddwn allan yn cerdded gyda fy ngwraig Delyth a dau o'm ffrindiau dydd Sadwrn 29 Mehefin. Cerddom dros y rhostir tuag at Gwm Serw Migneint. Ar ôl cyrraedd safbwynt uchel cawsom seibiant byr i edmygu'r dirwedd wych o Llyn Serw ac Arennig Fawr. Yn sydyn gwelsom foncath yn hedfan i ffwrdd a oedd wedi bod yn clwydo ar graig gerllaw ac wedyn gweld nifer fawr o wyfynod yn hedfan heibio i ni. Roedd y tywydd yn gynnes iawn ac roeddem mewn dillad ysgafn crysau-t. Gwelodd Delyth y gwyfynod i gyd yn glanio ar y graig gerllaw ble roedd y boncath wedi bod yn clwydo. Cerddom i lawr at y graig a dod o hyd i ddwsinau o adenydd gwyfynod ar y llawr. Debyg iawn fod y boncath wedi bod yn eu bwyta wrth iddynt gyrraedd y graig i daflu eu hadenydd. Gwelsom fod rhai o'r gwyfynod yn paru gyda'i gilydd ac roedd bwrlwm o weithgaredd yn mynd ymlaen. Cymerais lawer o luniau a chefais fy hudo gan y



digwyddiad ger ein bron. Doeddwn i ddim yn gwybod beth oedd y digwyddiad anhygoel yma a welsom nes i mi ddychwelyd adref a gwneud rhywfaint o ymchwil. Mae ffrind da i mi sy'n arbenigwr gwyfynod wedi dweud ein bod wedi gweld digwyddiad anhygoel. Eglurhad ganddo oedd bod y gwyfynod gyrryw wedi cael eu denu gan y gwyfynod benyw a oedd ar y graig. Enw'r gwyfynod oedd 'Oak Eggar' [neu wylun y grug (*Lasiocampa quercus*)]. Roedd llawer o'r gwyfynod gyrryw yn hedfan ar y graig tra roeddem yn sefyll yno ac nid oeddent yn cymryd dim sylw ohonom. Roedd yr olygfa yn anhygoel ac nid oeddwn yn disgwyl gweld y fath olygfa a minnau heb fy nghamera gorau dim ond camera digidol cryno bach. Aethom ymlaen a'm taith i Gwm Serw a daethant ar draws madfall ar y llwybr.

Dychwelais yn ôl y diwrnod canlynol gyda fy ffrind Geoff Gartside o Ibox Films er mwyn iddo ef cael cyfle i ffilmio'r gwyfynod. Roedd Dydd Sul yn oer iawn gyda glaw mân a gwynt cryf, roeddem yn gwisgo sawl haen o ddillad cynnes a dillad dal dŵr, roedd un neu ddau o wyfynod dal i fod yno ond dim y bwrlwm a welsom y diwrnod cynt.

Pierino Algeri

## Llifogydd dinistriol yn Baregès, y Pyreneau, 21 Mehefin 2013

<http://www.leparisien.fr/environnement/video-intemperies-bareges-un-village-devaste-par-les-eaux-21-06-2013-2917433.php>

*Routes à la chaussée défoncée, maisons détruites, terrains quasiment avalés... Le village de Barèges (Hautes-Pyrénées) s'est réveillé dans la douleur ce vendredi après les intempéries qui ont frappé la région plusieurs jours durant....*

## Oes yna ghenhedlaeth newydd o lyffantod yn mynd i fod eleni?

A chysidro'r gwanwyn eithriadol o oer a laddodd y penbyliaid ym mis Mawrth, a'r syched mawr yng Nghorffennaf a ddistriodd, mae'n debyg, unrhyw benbyliaid oedd ar ôl, beth yw eich barn chi (ar sail eich sylwadau yn y maes).

## O Lydaw



"Echantillons de laine teinte" (Poul Fetan, Morbihan)

Gyda diolch i Gabriel Quéré (Landerne)

## Sychder, mes a pherygl i dda byw...

Prydain, Hydref 1893

ACORN POISONING. The attention of the Board of Agriculture has been called to the unusual abundance of the crop of acorns this season, and it is considered desirable to warn stockowners who are accustomed to turn cattle into parks, on to commons, or other places where acorns are plentiful, that there is considerable risk of injurious effects arising from the consumption of large quantities of acorns, which in the present dearth of herbage, owing to the long drought, are certain to be eaten with avidity.

Aberystwyth Observer 12 Hydref 1893

[<http://papuraunewyddcymru.llgc.org.uk/cy/page/view/3046712/ART62/drought> ]

Tybed oes yna gnwd da o fes am fod eleni - ôl y gwres mawr?

## Cofio Maldwyn



Dyma bytiau o sgwrs efo Maldwyn gwta flwyddyn cyn ei farwolaeth diweddar. Y mae'r sgwrs gyntaf yn ymdrin â'r enw Garreg (Garreg Llanfrothen, ei fro enedigol), a'r ail yn trafod coed, sef ei ddileit pennaf.

<http://www.llennatur.com/gwyn/sain/MalThomas/EnwGarreg.mp3>

<http://www.llennatur.com/gwyn/sain/MalThomas/CoedMaldwyn.mp3>

## Dau gofnod - yr un dyddiad

...a'r naill wrth gwrs ddim yn ymwybodol o'r llall.

Abergele 1 Gorffennaf 1908 neges... ar gefn cerdyn post "Still alive in spite of the heat ! It was absolutely roasting yesterday [1 Gorff mae'n debyg, y cerdyn wedi dyddio 2 Gorff]. I sat in the shade of a haystack for a long time reading. It was delightful. It was so light last night that I could read easily at 1030."

[cerdyn post efo marc post Abergele a llun Castell Caernarfon]

Weekly Mail 1 Gorffennaf 1908

REMARKABLE SKY EFFECT. WAS IT A DISPLAY OF AURORA BOREALIS Mr. Arthur Mee writes "Everyone is talking of the remarkable brightness of the sky on Wednesday evening [1 Gorff 1908], and I see that the papers report a display of aurora borealis more brilliant than any since the outburst of 1870 of which I still retain a fairly good recollection. I am not so sure myself that Wednesday night's display was the aurora. Comparatively early in the evening the sky wore a weird ominous aspect, as though portending a violent thunderstorm. As the evening wore on the north grew brighter and brighter, till at 10.30 it was as light as it often is at ten a.m. on a dull November day. The appearance as seen at Llanishen was as though the sun had only sunk a little way below the ridge at Cefn On. The light followed the sun's course till dawn, and the whole phenomenon seems to me to have been one of the remarkable after-glow which we sometimes witness, and which may or may not be accompanied by aurora. Anyway, the sight was a remarkable one, and attracted very general attention. The solar surface is not specially agitated just now - at any rate, not more than it has been for the last few days, so far as telescopic observation is concerned. If there were a genuine auroral outbreak on Thursday morning, I hope some reader will describe it.

Llyfrgell Genedlaethol Cymru Weekly Mail 4 Gorffennaf 1908

## Sglefrod môr

Welsoch chi'r sglefrod môr ar y traethau eleni, ar draethau fel Harlech (7 Gorffennaf, Twm Elias), a Dinas Dinlle (17 Gorffennaf, DB). Slefrod lloerol *Aurelia aurita* oedd y rhan fwyaf, ond ambell i slefren mwng llew *Cyanea capillata* hefyd (llun). Cafwyd rhywbeth tebyg ddiweddd Mehefin 2005: "Mae pla o sglefrod môr ym Mae Tremadog. Arwydd o dywydd terfysg medda' nhw". ([www.cimwch.com](http://www.cimwch.com)). Sglefren Harri Morgan yw enw Sion Roberts ar y slefren mwng llew. Meddai Sion: "Fe'i gwelir yn aml mewn heigiau yn yr haf. Mae'r tentaclau yn hir iawn, ac mae'r pigiad sydd ganddi yn boenus. Mae'n ymddangos mewn stori Sherlock Holmes o'r enw 'The Adventure Of The Lion's Mane' ". Beth am dynnu lluniau o'r rhai rydych yn eu gweld ar y traeth - wneith eu cylchoedd bosteri-adnabod da yn y dyfodol.



Cymdeithas Edward Llwyd: Rhif Elusen Gofrestredig : 1126027

Ychwanegwch ddeunydd i [llennatur@yahoo.co.uk](mailto:llennatur@yahoo.co.uk) Golygydd: Duncan Brown, Cysodi: Ifor Williams.